# Monitro a gwerthuso perfformiad ynni adran neu brosiect

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio'r gofynion sgiliau a gwybodaeth i fonitro a gwerthuso defnydd a pherfformiad ynni yr adran neu'r prosiect. Mae'n cynnwys sut i reoli dulliau a phrosesau sefydliadol a gwerthuso defnydd a pherfformiad ynni adran neu brosiect, sut i gael, dadansoddi a chofnodi'r wybodaeth am berfformiad ynni a darparu'r wybodaeth sydd yn ofynnol i gynyddu perfformiad ynni.

Mae'r safon hon ar gyfer:

- Rheolwr â chyfrifoldeb dros reoli ynni
- Perchennog busnes bach sydd eisiau gwella perfformiad ynni y sefydliad
- Cydlynydd systemau rheoli ynni neu gyfwerth
- Archwiliwr ynni
- Ymgynghorydd sydd yn rhoi cyngor rheoli ynni.

Mae'r safon hon yn cynnwys monitro a gwerthuso canlyniadau perfformiad ynni, creu adroddiadau ac ymgysylltu a chyfathrebu â phawb sydd yn gysylltiedig â chynyddu perfformiad ynni adran neu brosiect.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Diffinio cwmpas a diffinio prosesau perfformiad ynni adran neu brosiect sydd yn gofyn am fonitro a gwerthuso
2. Adolygu unrhyw ddulliau monitro perfformiad ynni adran neu brosiect yn unol â gofynion
3. Nodi dulliau monitro ar gyfer defnyddio ynni a, lle y bo'n berthnasol, adolygu yn erbyn dulliau presennol
4. Creu gweithdrefn i fonitro a gwerthuso defnydd a pherfformiad ynni adrannol neu brosiect
5. Nodi'r holl adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r dulliau monitro
6. Gweithredu dulliau monitro yn unol â graddfeydd amser ac adnoddau
7. Cael a chofnodi'r wybodaeth sydd yn ofynnol ar gyfer gwerthuso perfformiad ynni yr adran neu'r prosiect
8. Cael gwybodaeth am berfformiad ynni gan y cyflenwyr cynnyrch a phrosesau sydd yn cael eu cyflenwi i'r adran neu'r prosiect
9. Cofnodi a recordio perfformiad ynni'r adran neu'r prosiect
10. Gwerthuso a dadansoddi perfformiad ynni'r adran neu'r prosiect yn cynnwys gwybodaeth a dderbyniwyd gan gyflenwyr
11. Recordio a chofnodi canlyniadau'r gwerthusiad gan ddilyn gofynion sefydliadol
12. Cymharu'r canlyniadau â gofynion ynni presennol yr adran neu'r prosiect
13. Nodi a chytuno ar feysydd lle mae angen gwella perfformiad ynni yr adran neu'r prosiect
14. Cyfathrebu perfformiad ynni'r adran neu'r prosiect i randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys y rheiny â nodweddion gwarchodedig

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y prosesau sydd yn gofyn am fonitro a gwerthuso
2. Yr ystod o ddulliau monitro ar gyfer gwerthuso defnydd adran neu brosiect o ynni a sut i ddewis y system(au) gofynnol
3. Sut i gydgrynhoi a chofnodi gwybodaeth am ddulliau a phrosesau monitro gan ddilyn gofynion sefydliadol
4. Sut i amcangyfrif yr adnoddau sydd yn ofynnol i weithredu'r dulliau a'r prosesau monitro
5. Sut i gael cymeradwyaeth ar gyfer yr adnoddau gofynnol i weithredu dulliau a phrosesau monitro
6. Sut i reoli'r adnoddau i weithredu dulliau a phrosesau monitro
7. Sut i gael a chofnodi'r wybodaeth sydd yn ofynnol i asesu effeithlonrwydd ynni adran neu brosiect o'r dulliau a'r prosesau monitro
8. Sut i gael gwybodaeth am berfformiad ynni gan gyflenwyr cynnyrch a phrosesau a gyflenwir i'r adran neu'r prosiect
9. Yr ystod o gyflenwyr a'r wybodaeth y gallant ei darparu ar effeithlonrwydd ynni eu cynnyrch a'u prosesau
10. Sut i gydgrynhoi a chofnodi gwybodaeth am berfformiad ac effeithlonrwydd ynni
11. Egwyddorion a phrosesau cyfathrebu effeithiol a sut i'w cymhwyso
12. Yr ystod o ddulliau gwerthuso a dadansoddi a sut i ddatblygu a chymhwyso system(au) perthnasol
13. Sut i gydgrynhoi a chofnodi canlyniadau gwerthusiadau a dadansoddiadau
14. Sut i ddefnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad i nodi meysydd posibl ar gyfer gwella perfformiad ynni adran neu brosiect a buddion gwella
15. Y ffynonellau ynni a ddefnyddir gan yr adran neu'r prosiect ac effaith amgylcheddol bob un

# Monitro a gwerthuso perfformiad ynni adran neu brosiect

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEM20 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr, Perchennog/Rheolwr, Ymgynghorydd Amgylcheddol, Cydlynydd Systemau Rheolaeth Amgylcheddol, Archwilydd Ynni |
| **Cyfres/Set** | Ymwybyddiaeth a Rheolaeth Amgylcheddol Sefydliadol |
| **Geiriau Allweddol** | effaith; asesiad; llygredd; diogelu; hinsawdd; |